# Penodi Timothy Riley yn Ddirprwy Gadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Darllenwch gyhoeddiad Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol San Steffan.

Dywedodd yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr ASB:

“Rwy’n falch iawn y bydd Timothy, sydd wedi gwneud cyfraniad rhagorol fel aelod o Fwrdd yr ASB ers 2019, nawr yn ymgymryd â rôl Dirprwy Gadeirydd yr ASB. Mae profiad Timothy fel aelod Bwrdd ar draws amrywiaeth o gyrff cyhoeddus a phreifat, ynghyd â’i gefndir gwyddonol a’i wybodaeth am y sector bwyd a ffermio, yn golygu ei fod yn arbennig o gymwys i gyflawni’r rôl hon. Edrychaf ymlaen at weithio’n agos gydag ef.”



Dywedodd Timothy Riley:

“Rwy’n gwerthfawrogi’n fawr rôl a gwaith yr ASB wrth sicrhau bod ein bwyd yn ddiogel a’i fod yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label. Mae cyfraniad yr ASB i faterion o ran iechyd y cyhoedd a hyder defnyddwyr yn hanfodol bwysig, ac felly rwy’n falch iawn o ddechrau’r rôl Dirprwy Gadeirydd a chefnogi’r ASB at y dyfodol.”

Mae Timothy Riley wedi bod yn aelod o Fwrdd yr ASB ers 2019 ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC). Hefyd, rhwng 2013 a 2019, roedd yn aelod o Bwyllgor Cynghori’r ASB ar Fwydydd Anifeiliaid.

Mae gan Timothy gefndir academaidd mewn imiwnoleg foleciwlaidd. Mae’n dod â phrofiad fel uwch-was sifil ar ôl bod yn Bennaeth Polisi Iechyd Cyhoeddus y GIG a Safonau Clinigol, gan arwain y tîm a sefydlodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Mae hefyd yn dod â phrofiad ym maes arweinyddiaeth weithredol ar ôl gwasanaethu fel Prif Weithredwr i dair Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol y GIG rhwng 2001 a 2011.

Ochr yn ochr â’i waith mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae Timothy wedi gweithredu fferm cig eidion a chig oen fasnachol yng ngorllewin Swydd Efrog ers dros 30 mlynedd, gyda diddordeb

arbennig mewn amaethyddiaeth gynaliadwy a chyfeillgar i natur. Timothy yw Llywydd Cymdeithas Gwartheg Byrgorn Eidion y DU, mae hefyd yn aelod o Fwrdd ac yn Gadeirydd ARAC i Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol Defra ac yn aelod o Bwyllgor Geneteg Da Byw a Cheffylau'r DU. Yn y sector preifat, mae ganddo ddwy swydd ar Fyrddau Anweithredol.

Mae mwy o fanylion am gefndir proffesiynol Timothy a'i ddatganiad o fuddiannau ar wefan yr ASB .